



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion – rhan 2 Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion Arbennig

Tachwedd 2018

Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion Rhan 2 – Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion Arbennig

Cyflwyniad


Mae'r ddogfen hon yn pennu'r safonau ar gyfer nyrsio mewn ysgolion arbennig; mae'r rhain yn adeiladu ar ran A - Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion ac yn disgrifio sut mae rôl nyrs mewn ysgol arbennig yn cefnogi plant mewn ysgolion arbennig a hefyd sut mae plant ag anghenion ychwanegol sylweddol sydd angen mewnbwn gofal iechyd mewn ysgolion eraill yn cael eu cefnogi.

Rhagwelir y bydd cyfnod cyflwyno o 24 mis i roi hyn ar waith ac yn ystod y cyfnod hwn ymdrinnir â materion y gweithlu a datblygu'r cysyniad o'r rôl a'r tîm o amgylch y plentyn.

Bwriad y fframwaith yw cefnogi rôl nyrs mewn ysgol arbennig a sicrhau dull gweithredu cyson. Mae'n cydnabod y gwaith rhagorol a wneir gan nyrsys mewn ysgolion arbennig a'i fwriad yw dwyn ynghyd elfennau allweddol y rôl hon, a disgrifio hyn ar ffurf safonau.

Dylid ystyried y fframwaith yng nghyd-destun yr arfer gorau presennol ac nid fel ffordd hollol newydd o weithio, er y dylai gynnig cyfle i egluro materion y gweithlu, rolau a nodi anghenion datblygu proffesiynol parhaus.

Y model



Elfennau allweddol y Model Nyrsio mewn Ysgolion Arbennig

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg ac esboniad o'r fframwaith ac yn ceisio egluro rhai o'r cysyniadau allweddol

Y tîm o amgylch y plentyn/tîm o amgylch y teulu

"The Team Around the Child approach is easily understood by families and paid workers. Key people, who already provide practical support to the child and family, are trusted by the parents and feel comfortable in their relationship, agree to join together regularly *to communicate and share*" - daw'r dyfyniad hwn o waith arloesol Peter Limbrick¹ ar y cysyniad o'r modd y mae gwaith tîm yn symud ffocws y gofal ar blant a theuluoedd o'r maes proffesiynol i anghenion y plentyn a'r teulu.

Yn y ddogfen hon, cyfeirir at y tîm fel y tîm o amgylch y teulu.

Mae'r model fel y'i hamlinellir uchod yn disgrifio pwy a all gael ei ystyried yn rhan o'r tîm amlddisgyblaethol/ amlasiantaethol hwn. Argymhellodd cynllun peilot y model hwn a gyhoeddwyd yn 2016² nodau allweddol penodol o fewn y tîm, ac un ohonynt yw rôl cydgysylltydd clinigol. Mae cyflwyno'r model yn genedlaethol yn gofyn am gryn hyblygrwydd gan y bydd angen unigol ac adnodd lleol o hyd. Gall y timau fod yn 'dimau go iawn' fel timau iechedd cymuned plant neu gallant fod yn rhith-dîm sydd wedi dod ynghyd i ddiwallu anghenion penodol plentyn a theulu penodol.

Cydgysylltu gofal

Mae'r rôl gydgysylltu y mae nyrs mewn ysgol arbennig yn ei mabwysiadu yng nghydestun amser ysgol a mynediad i'r tîm sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn elfen hanfodol o'r fframwaith hwn.

Nid yw hyn yn golygu bod nyrs mewn ysgol arbennig yn ymgymryd â rôl sy'n golygu mwy na hyn, er enghraifft, dod yn gydgysylltydd gofal cyffredinol y plentyn, oni fydd hyn yn briodol, er enghraifft o dan ddeddfwriaeth Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).

Y safon 'cydgysylltu gofal' yn y ddogfen hon yw ffurfioli'r rôl sydd gan nyrsys mewn ysgolion arbennig o ran y canlynol:

- Yn gyfrifol am y cynllun gofal tra bod y plentyn yn yr ysgol
- Yn gwybod pa aelodau o'r tîm ehangach sy'n gysylltiedig â gofal y plentyn
- Yn cydgysylltu cyfarfodydd adolygu gofal
- Yn sicrhau y cyflawnir cerrig milltir allweddol
- Yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer aelodau o'r tîm o ran gofal y plentyn
- Yn gallu trefnu clinigau perthnasol ar gyfer aelodau ehangach o'r tîm
- Yn sicrhau bod y plentyn a'r teulu yn ganolog i'r broses gofal

¹ Peter Limbrick Multiagency Service Coordination for Children with Complex Needs (2001)

² Adroddiad y Prosiect Nyrsio mewn Ysgolion Arbennig - (OCNO 2016)

Y Cynnig Cyffredinol

Mae Rhan 1 o'r fframwaith, sef y fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion (Tudalen 1), yn defnyddio model o ymyriadau **"Cyffredinol; Ychwanegol a Dwys"**, ac mae hyn yn ymddangos yn y ddogfen hon fel atodiad 1.

Mae'r Cynnig Cyffredinol ar gyfer pob plentyn o oedran ysgol ac mae'n safon yn y fframwaith hwn sy'n nodi bod nyrs mewn ysgol arbennig yn gweithio gyda nyrsys ysgol a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i sicrhau bod plant yn cael y cynnig cyffredinol.

Nid yw hyn yn golygu bod disgwyl i'r nyrs mewn ysgol arbennig gyflwyno'r cynnig cyffredinol ei hun.

Fodd bynnag, os yw'n briodol ac o fewn cwmpas ei hymarfer a'i chymhwysedd, gall adegau godi pan fydd nyrs mewn ysgol arbennig yn cyflawni rhai elfennau o ran A o'r fframwaith cyffredinol.

Yr allwedd i'r safon hon yw darparu addasiadau rhesymol; mae'r rhain yn gymwys i gyflawni ymyriadau gofal iechyd gyda'r plant a chefnogi addysg a datblygiad y plant hefyd.

Mae safonau eraill y fframwaith hwn yn adlewyrchu'r cyfraniad unigryw y mae nyrsys mewn ysgolion arbennig yn ei wneud i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

O ystyried natur y gwasanaeth a ddarperir gan nyrsys mewn ysgolion arbennig, mae'r safonau'n cyd-fynd â lefelau **Ychwanegol a Dwys** y model hwnnw.

Pontio

Ategir pob un o'r elfennau allweddol gan ddealltwriaeth fod gan nyrs mewn ysgol arbennig, o ran cyfnodau pontio h.y. o ysgol gynradd i ysgol uwchradd ac o ysgol uwchradd i fyd oedolion rôl hollbwysig i'w chwarae o ran cefnogi'r plant a'r bobl ifanc drwy bob cyfnod pontio. Mae rôl y cydgysylltydd yn rhan hanfodol o hyn.

Y safonau yn y fframwaith

Dyma'r meysydd allweddol sy'n ffurfio'r safonau a geir yn atodiad 2:

1. Sicrhau y cyrhaeddir safonau'r cynnig cyffredinol yn Rhan A
2. Sicrhau bod gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn cael eu bodloni
3. Cydgysylltu Gofal
4. Canolbwyntio'n fwy ar iechyd meddwl a llesiant
5. Gweithio'n ddwys drwy ddefnyddio dulliau therapiwtig
6. Diwallu anghenion iechyd corfforol drwy ymyriadau ychwanegol
7. Cefnogi teuluoedd a gofalwyr
8. Cyfnodau pontio

Cefndir

Mae'r canllawiau ar gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd³ yn darparu fframwaith statudol ar gyfer diwallu anghenion gofal iechyd yn cynnwys datblygu cynlluniau iechyd unigol. Maent hefyd, er enghraifft, yn rhoi gwybodaeth i gefnogi arfer drwy ganllawiau ar faterion fel rhannu gwybodaeth a storio meddyginiaethau. O fewn y cyd-destun hwn y dylid ystyried y fframwaith hwn ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig.

Yn 2015, comisiynodd y Prif Swyddog Nyrsio adolygiad o'r gwasanaethau nyrsio sy'n cael eu darparu ar gyfer disgyblion mewn ysgolion arbennig er mwyn darganfod faint o fewnbwn sydd ei angen i wella iechyd a llesiant plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysg yn yr ysgolion hyn. Y rheswm dros wneud hyn oedd y ffaith nad yw'r fframwaith presennol ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion i Gymru yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer ysgolion arbennig.

Tynnodd yr adolygiad sylw at ystod eang o faterion a phryderon yn ymwneud ag iechyd oherwydd diffyg ffordd safonol o ddiwallu anghenion y disgyblion y mae angen iddynt gael eu haddysg mewn ysgol arbennig.

Ar ôl i Lywodraeth Cymru gael adroddiad yr adolygiad, cefnogodd Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg drwy roi arian iddo i benodi Nyrs Prosiect am flwyddyn i dreialu model nyrsio a darpariaeth gofal iechyd arall er mwyn diwallu anghenion disgyblion.

Roedd y model yn creu 'tîm o gwmpas y plentyn', ac ystyriwyd ei bod yn hanfodol cynnal modelau arfer da presennol lle roedd tîm aml-ddisgyblaethol cyn ysgol yn gweithio gyda phlant ag anghenion iechyd cymhleth. Cafodd tîm craidd o weithwyr proffesiynol ei greu ar gyfer y treial, a'i enw oedd y Tîm Integredig Plant.

Os oedd gan yr ysgol nyrs ar y safle, cytunwyd y byddai'n gweithredu fel cydgysylltydd **clinig**; os nad oedd nyrs ar y safle byddai'r cydgysylltydd o'r Tîm Iechyd Anabledd Plant yn cyflawni'r rôl hon. Mae hyn yn rhan o'r rôl gydgysylltu a ddisgrifiwyd yn gynharach yn y fframwaith ac yn golygu, pan gynhelir clinigau mewn ysgol, y bydd nyrs mewn ysgol arbennig yn cydgysylltu'r rhain.

Ar y cyd â'r tîm craidd hwn, byddai pob gweithiwr proffesiynol ym maes addysg, iechyd a gofal cymdeithasol a oedd yn ymwneud â gofalu am y disgybl yn cael ei wahodd i fynd i unrhyw gyfarfodydd adolygu er mwyn sicrhau bod sylw yn cael ei roi i bob maes gofal a chymorth a bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu.

Mae gwaith gwerthuso'n dangos, ar y safleoedd a gymerodd ran yn y treial, fod y model wedi bod o fudd i ddisgyblion, teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol dan sylw ac wedi atgyfnerthu'r angen i weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau y caiff anghenion eu diwallu.

³ <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?lang=cy>

Ffactorau sbardun

Mae'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig yn cael ei lunio ar yr un pryd ag y bydd ffactorau allweddol eraill sy'n sbarduno polisi yn cael eu cyflwyno.

Mae Rhan A o'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion yn amlinellu'r rhaglenni sy'n cael eu rhoi ar waith. Mae'r ffactorau sbardun yn yr adran hon yn ystyried goblygiadau'r rhaglenni hyn, ond o safbwynt nyrsio mewn ysgolion arbennig.

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018⁴ Gydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018. Mae'n creu'r fframwaith deddfwriaethol i wella'r gwaith o gynllunio a chyflwyno darpariaeth dysgu ychwanegol drwy ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y person o nodi anghenion yn gynnar, rhoi prosesau cefnogi a monitro effeithiol ar waith ac addasu ymyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn arwain at y canlyniadau dymunol. Bydd rôl nyrs mewn ysgolion arbennig yn hanfodol bwysig i'r gwaith o helpu i weithredu'r broses asesu a chyflwyno newydd, ac un o safonau allweddol y fframwaith hwn yw sicrhau bod gofynion y Ddeddf yn cael eu cefnogi.

Yn 2015, lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bolisi allweddol arall, sef *Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc*⁵. Mae'r rhaglen amlasiantaeth hon, sy'n cael ei harwain gan y GIG, yn gweithio i ail-lywio a newid pwyslais gwasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus⁶. Fel rhan o'r rhaglen hon, caiff anghenion addysgol arbennig ar gyfer llwybrau Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a llwybrau niwroddatblygiadol eu hystyried, ac mae gan nyrsys mewn ysgolion arbennig rôl glir wrth roi'r rhaglen ar waith.

Mae Rhaglen Plant Iach Cymru⁷ a mecanweithiau cymorth llythrennedd emosiynol (ELSA)⁸ pellach sy'n cael eu cyflwyno yn bolisiau allweddol eraill mewn ysgolion sy'n berthnasol i rôl nyrs mewn ysgolion arbennig.

Yn unol â Ffyniant i Bawb⁹, sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a llesiant, mae'r Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion Arbennig yn cynnig sail i fynd i'r afael â rhai o'r prif heriau wrth sicrhau iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru.

Mae'r fframwaith yn cael ei roi ar waith ar adeg pan fo prif argymhellion yr adolygiad o'r cwricwlwm yn Adroddiad Donaldson¹⁰ yn cael eu gweithredu. Mae hyn yn golygu bod y cwricwlwm yn rhoi pwyslais ar iechyd a llesiant yn ogystal â phynciau

⁴ Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (mynediad: <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/legislation-and-statutory-guidance/?skip=1&lang=cy>)

⁵ Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc – Llywodraeth Cymru (2015)

⁶ Egwyddorion gofal iechyd darbodus – Llywodraeth Cymru (2015)

⁷ Rhaglen Plant Iach Cymru (2016) – Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016)

⁸ Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) – Llywodraeth Cymru (2016)

⁹ Ffyniant i Bawb – Llywodraeth Cymru (2017)

¹⁰ Adolygiad Donaldson a diwygio'r cwricwlwm 2016

traddodiadol. Mae nyrs yr ysgol mewn sefyllfa ddelfrydol i gefnogi'r broses o ddatblygu'r polisi hwn.

Mae'r Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion Arbennig yn seiliedig ar hawliau dynol. Mae'n ymrwymo i ymgorffori'r 7 Nod Craidd ar gyfer plant a phobl ifanc o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)¹¹. Yn y fframwaith, caiff yr elfennau Hawliau Dynol eu pwysleisio gan eu bod yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol a moesegol ar gyfer cyflawni.

Mae'r gydberthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014¹² yn rhan hanfodol o ddeddfwriaeth sy'n llunio canllaw ar gyfer y safonau ar gyfer nyrsio mewn ysgolion arbennig. Mae cydberthynas hyn â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ar gyfer cyfnodau pontio yn hanfodol.

Cyhoeddwyd Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau (Llywodraeth Cymru 2018) ar ôl ymgynghori ar y fframwaith, ac mae'n cynnwys argymhellion allweddol sy'n berthnasol i flynyddoedd cynnar ac ieuchyd. Mae'r rhain yn ymwneud yn arbennig â lleihau arferion cyfyngol a datblygu dulliau cymorth ymddygiadol cadarnhaol, cydnabod pwysigrwydd profiadau niweidiol yn ystod plentynod. Mae'r ddau beth hyn yn cefnogi'r angen i ystyried datblygu'r "tîm o amgylch y plentyn".¹³

Gweledigaeth ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig yng Nghymru

Bydd nyrsys sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig yn gwneud y canlynol:

- cefnogi dull o ymdrin ag ieuchyd plant sy'n sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant yn deall pa addasiadau rhesymol y mae angen eu gwneud ar gyfer y plentyn hwnnw a'i deulu er mwyn ei gwneud yn bosibl iddo gael yr un addysg, gofal ieuchyd a gofal cymdeithasol â phawb arall (UNRC 2008).
- un egwyddor allweddol yma yw cydnabod bod addasiadau rhesymol yn hawl gyfreithiol ac NID yn opsiwn
- rhoi gofal, cymorth a chyngor i bob plentyn gan ddefnyddio canllawiau wedi'u cyhoeddi sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- gweithio mewn partneriaeth gyda'r plentyn, yr ysgol, rhieni a gweithwyr ieuchyd proffesiynol eraill er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol a bod plant yn cyrraedd eu llawn botensial i dyfu'n oedolion hapus ac iach
- cefnogi ieuchyd a llesiant plant drwy ddefnyddio dull ieuchyd cyhoeddus o atal, diogelu a hybu ieuchyd da
- defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad i ragweld anghenion plant a'u gofalu
- cefnogi'r gwaith o leihau effaith anghydraddoldebau ieuchyd a sicrhau canlyniadau ieuchyd gwell ar gyfer plant a phobl ifanc
- cydgysylltu gofal a bod yn bwynt cyswllt unigol a sicrhau cysondeb pan ofynnir am gymorth
- cefnogi plant a phobl ifanc drwy gyfnod pontio

¹¹ CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2008

¹² Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

¹³ Gwella Bywydau - rhaglen anabledd dysgu Llywodraeth Cymru 2018

1. Sicrhau y cyrhaeddir safonau'r cynnig cyffredinol yn Rhan A

Gellir gweld gwybodaeth am safonau'r cynnig cyffredinol yn yr atodiad yn Rhan A o'r ddogfen hon sy'n dechrau ar dudalen 17. Mae'r cynnig cyffredinol yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Diogelu
- Hyrwyddo llesiant emosiynol a diwallu anghenion iechyd meddwl plant oedran ysgol
- Safonau imiwneiddio ar gyfer plant oedran ysgol yng Nghymru
- Safonau ar gyfer rhoi rhaglen mesur plant Cymru ar waith

Y nod i nyrsys sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig yw gweithio gyda'r gwasanaeth nyrsio yn yr ysgol a gweithwyr iechyd plant proffesiynol eraill er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y safonau cyffredinol hyn ar gyfer pob plentyn mewn ysgolion arbennig. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'r rhain yn cael eu cyflawni gan nyrs mewn ysgol arbennig, oni fydd yn briodol, ond maent yn rhan hanfodol o'r gwaith o gydgyssylltu a hwyluso'r safonau hyn.

Mae'r cysyniad o addasiadau rhesymol yn thema sy'n codi droeon drwy gydol y fframwaith hwn, ac mae'n werth treulio ychydig funudau yn ystyried yr hyn y mae'n ei olygu yng nghyd-destun cyflwyno'r cynnig cyffredinol i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig. Ar gyfer yr agwedd hon ar y fframwaith, caiff addasiadau rhesymol eu defnyddio i ddisgrifio'r ymyrraeth sydd ei hangen er mwyn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddiwallu angen gofal iechyd.

Mae addasiadau rhesymol yn rhan hanfodol o'r fframwaith deddfwriaethol i blant ag anableddau ac yn ymwneud â themâu canolog safonau'r UNCRC, ac nid ydynt yn opsiwn o ran deddfwriaeth.

Mae nifer o adnoddau ar gael i gefnogi ymarferwyr (mae rhai enghreifftiau i'w gweld yn atodiad 3) wrth wneud addasiadau rhesymol sy'n ystyried rhai o'r materion pwysig. Er enghraifft:

- Gwybodaeth hygyrch – sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformat y gall y plentyn ei ddeall
- Cymorth o ran caniatâd a gallu, gan wneud penderfyniadau er lles y plentyn
- Cyfathrebu – deall sut mae'r plentyn yn cyfathrebu, sut mae'n dangos ei emosiynau a'r hyn sy'n well ganddo, datblygu a defnyddio proffiliau cyfathrebu a system goleuadau traffig
- Deall ofnau a chasbethau'r plentyn a lleihau ei gysylltiad â'r rhain
- Deall unrhyw faterion sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth gymdeithasol/prosesu synhwyraidd
- Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr
- Mabwysiadu dull proffesiynol o ddisensiteiddio gan ddefnyddio cynllun gofal a gynlluniwyd, y cytunwyd arno ac a gymeradwywyd yn foesegol
- Mabwysiadu cymorth ymddygiadol cadarnhaol
- Gwneud ymdrech arbennig – mae rhai enghreifftiau o arfer gorau wrth wneud addasiadau rhesymol yn cynnwys bod yn hyblyg ac yn greadigol

2. Sicrhau bod gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn cael eu bodloni

Ar y cam hwn, rôl y nyrs yn yr ysgol arbennig fydd cefnogi'r gwaith o weithredu a monitro gofynion y Ddeddf sy'n ymwneud ag asesu ac elfen iechyd cynlluniau iechyd unigol. Wrth i brosesau'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gael eu sefydlu, efallai y bydd gofyn i nyrsys mewn ysgolion arbennig ymgymryd â rolau a gweithgareddau ychwanegol. Mae nyrsys mewn ysgolion mewn sefyllfa dda i gefnogi'r gwaith o weithredu, monitro a gwerthuso cynlluniau iechyd sy'n ategu'r addasiadau rhesymol y mae angen eu gwneud er mwyn sicrhau bod cyfleoedd addysgol cymaradwy ar gael yn deg.

3. Cydgysylltu gofal

Pan fo'r plentyn yn gymwys o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010¹⁴, gall nyrs yr ysgol arbennig, gan ddibynnu ar ei phroffil proffesiynol, gael ei phenodi'n gydgyssylltydd gofal yn nhermau gofynion cyfreithiol y mesur.

Roedd gwaith treialu'r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig, yn nhermau iechyd a llesiant cyffredinol y plentyn, hefyd yn argymhell nyrs yr ysgol arbennig fel unigolyn sydd mewn sefyllfa dda i ymgymryd â rôl y cydgysylltydd gofal clinigol ac i fod yn gyfrifol am y broses cynllunio gofal gyffredinol ar gyfer agweddau clinigol ar ofal y plentyn tra ei fod yn yr ysgol.

Mae hyn wedi'i ddisgrifio yn gynharach yn y ddogfen, ond dyma ategu eto bod nyrs mewn ysgol arbennig mewn lle delfrydol, o sabwynt cydgysylltu, i sicrhau bod y canlyniadau iechyd a gofal yn cefngogi'r plentyn o ran cyfleoedd addysgol a hefyd o ran cael mynediad at ymyriadau gofal iechyd priodol.

Mae pasbortau iechyd yn cynnwys gwybodaeth hanfodol am anghenion iechyd y plentyn a dylid eu datblygu mewn partneriaeth â'r plentyn a thîm aml-ddisgyblaethol ehangach ei ofalwr. Mae'n caniatáu i weithwyr proffesiynol eraill weld gwybodaeth am anghenion gofal iechyd yn gyflym.

Fodd bynnag, un o'r prif bwyntiau a godwyd gan gydweithwyr a theuluoedd wrth ddatblygu'r fframwaith yw y dylai fod gan blant a theuluoedd **bwyt cyswllt unigol** i'w gwneud yn bosibl iddynt ddefnyddio ystod o wasanaethau gofal iechyd sy'n eu cefnogi tra eu bod yn gymwys i gael gwasanaethau oedran ysgol.

.

Mae'r rôl gydgyssylltu hon yn bwysig ar adeg pontio ac mae parhad llif gwybodaeth am ofal iechyd rhwng gwasanaethau yn hanfodol. Mae cynllunio ar gyfer cyfnodau pontio yn broses aml-ddisgyblaethol unwaith eto. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hanfodol a ddelir gan nyrs mewn ysgol arbennig yn adnodd pwysig yn y broses gynllunio hon.

¹⁴ Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Rôl benodol nyrs mewn ysgol arbennig

Dylai'r rôl hon ganolbwyntio ar rai meysydd â blaenoriaeth y mae'r grŵp cyfeirio ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig wedi tynnu sylw atynt. Mae'r rhain fel a ganlyn:

4. Canolbwyntio'n fwy ar iechydd meddwl a llesiant

Mae'r cynnig cyffredinol yn Rhan A yn canolbwyntio ar iechydd meddwl a llesiant. Drwy ganolbwyntio'n fwy ar iechydd meddwl a llesiant, yn achos gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion arbennig, dylai hyn adlewyrchu dealltwriaeth o effaith anghenion addysgol arbennig ar iechydd meddwl a llesiant. Mae'n hanfodol cydnabod hyn a datblygu strategaethau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd, ac mae hyn yn ffurfio rhan o'r safonau yn Atodiad 1.

"Children with learning disabilities [in England] are at increased risk of exposure to all of the major categories of social determinants of poorer physical and mental health"¹⁵. Er bod yr adroddiad hwn yn berthnasol i Loegr, mae'n rhoi syniad clir o effaith anghydraddoldebau ar blant ag anableddau dysgu, ac un o brif rolau iechydd cyhoeddus gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion arbennig yw defnyddio strategaethau i leihau eu heffaith.

5. Gweithio'n ddwys drwy ddefnyddio dulliau therapiwtig

Mae'r fframwaith yn defnyddio strwythur ac argymhellion rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc er mwyn disgrifio'r dulliau therapiwtig a hyrwyddir ynddi ym meysydd ***Ymyrraeth Gynnar; Anableddau Niwroddatblygiadol ac Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)***. Y rheswm dros wneud hyn, yn nhermau ymyriadau therapiwtig sy'n cefnogi iechydd meddwl a llesiant y plentyn ac sy'n rhoi'r cymorth gorau i deuluoedd a gofalwyr, yw bod y camau sy'n gysylltiedig â llwybrau dynodedig y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn seiliedig ar dystiolaeth a, thrwy ddefnyddio'r fframwaith hwn, gallwn ddechrau sicrhau bod modelau ymyrryd yn gyson ledled Cymru.

Yn ymarferol mae'r safon hon unwaith eto yn ymwneud ag ymyriadau uniongyrchol gan nyrs mewn ysgol arbennig, er enghraifft, defnyddio cymorth ymddygiadol cadarnhaol (PBS) i gefnogi materion ymddygiadol, lle mae nyrs mewn ysgol arbennig yn meddu ar y sgiliau hynny ei hun ac yn gweithredu o fewn ffiniau ei rôl broffesiynol. Gallai hefyd olygu bod nyrs mewn ysgol arbennig yn gweithredu fel cydgysylltydd rhwng yr ysgol a'r nyrsys anableddau dysgu o'r "tîm o amgylch y plentyn" er mwyn sicrhau bod y plentyn yn gallu manteisio ar wasanaethau PBS lle nad oes gan nyrs mewn ysgol arbennig y sgiliau i gyflawni hyn yn uniongyrchol.

Mae'r broses o ymyrryd yn gynnar yn cael ei chynnwys gan ei bod yn rhan hanfodol o'r rôl hybu iechydd ac atal sydd gan nyrs mewn ysgol arbennig i nodi a chefnogi

¹⁵ The determinants of health inequities experienced by children with learning Disabilities- Public Health England (2013) tud 5

iechyd meddwl y plentyn ac mae cymorth ymddygiadol yn rhan hanfodol o'r broses ymyrryd yn gynnar ac mae gan nyrs mewn ysgol arbennig rôl i'w chwarae i sicrhau y cefnogi'r ymyriad clinigol hwn.

6. Diwallu anghenion iechyd corfforol drwy ymyriadau ychwanegol a dwys

Mae'r gydberthynas rhwng plant â lefelau uchel o anghenion addysgol arbennig ac anghenion iechyd corfforol ychwanegol wedi'i dogfennu'n helaeth a cheir dealltwriaeth dda ohoni. Mae anghenion iechyd yn amrywio o un plentyn i'r llall, ac mae'n bwysig bod y nyrs yn yr ysgol arbennig yn deall y cyflyrau cysylltiedig cyffredin a all fod gan blant mewn ysgolion arbennig.

Mewn ffordd debyg i'r safon flaenorol gall nyrs mewn ysgol arbennig, lle mae'n gymwys, gyflawni ymyriadau corfforol penodol ac unwaith eto, os na all wneud hynny, yna ei rôl hi fydd sicrhau bod yr angen yn cael ei fodloni gan y tîm ehangach.

Rhan o'r safon hon fydd cefnogi'r broses o roi elfennau ychwanegol ehangach ar waith wedi eu hanelu at fynd i'r afael â rhai o'r anghydraddoldebau iechyd a wynebier gan blant ag anghenion ychwanegol:

- Fframwaith Cydraddoldebau Iechyd Plant¹⁶ (cHEF) - fframwaith canlyniadau yw hwn sy'n asesu, gan ddefnyddio proses syml, effaith penderfynyddion anghydraddoldebau iechyd ac mae'n cael ei gyflwyno ar gyfer oedolion
- mae adolygiad yr Adran Addysg a Sgiliau ar gyfer archwiliadau iechyd blynyddol (AHC) yn debygol o argymhell bod AHC yn cael eu hystyngi i bobl ifanc 14 oed
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu pasbortau iechyd sy'n cefnogi mynediad i ddarpariaeth gofal iechyd ehangach

7. Cefnogi teuluoedd a gofalwyr

Gwnaeth y teuluoedd a gymerodd ran yn y treial ddweud pa mor bwysig yw rôl nyrs mewn ysgolion arbennig wrth eu helpu i ofalu am eu plant, ac mae'n bwysig bod y cyfraniad hwn yn cael ei gydnabod a'i ystyried yn rhan hanfodol o'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig.

Mae llawer o rieni o'r farn mai cefnogi plant sy'n ymddwyn mewn ffordd heriol yw'r rhan fwyaf anodd o'u rôl fel rhiant a gofalwr, ac mae cefnogaeth yn y maes hwn yn allweddol. Os yw nyrs mewn ysgol arbennig yn gymwys i roi cymorth ymddygiadol cadarnhaol, er enghraifft Nyrs Gofrestredig (Anabledd Dysgu), mae'n bosibl y gall roi cymorth uniongyrchol i'r teulu). Os nad yw'n gymwys, mae'n debygol y bydd yn cefnogi'r broses fel y cydgysylltydd ac fel pwynt mynediad i dîm ehangach a all helpu'r plentyn gyda heriau o'r fath.

Yn yr un modd, o ran cefnogi'r rhai sydd ag anableddau corfforol ychwanegol a phlant ag anableddau dysgu a chorfforol dwys, mae dwy ran i rôl nyrs mewn ysgol

¹⁶ Fframwaith Cydraddoldebau Iechyd (HEF) (NDTi 2013)

arbennig sef cefnogi teuluoedd a gofalmwyr yn uniongyrchol a hefyd sicrhau bod y tîm o amgylch y plentyn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r cymorth sydd ei angen. Mae'r adran hon o'r fframwaith yn cydnabod y bydd adegau pan na fydd yn briodol i deuluoedd fod yn rhan o hyn a rhan o rôl nyrsys mewn ysgolion arbennig yw cefnogi penderfyniadau o'r fath drwy eu barn broffesiynol hwy eu hunain ac ar y cyd â'r ysgol a'r tîm ehangach. Hefyd bydd adegau lle y gall plant fod yn cael gofal ac efallai y bydd angen rhoi sylw arbennig iddynt o ran y gydberthynas â gofalmwyr.

8. Pontio

Mae'r nyrs mewn ysgol arbennig mewn sefyllfa unigryw i gefnogi'r plentyn, ei deulu a gofalmwyr drwy'r broses bontio. O ran rhannu gwybodaeth â gwasanaethau a all fod yn gysylltiedig â'r plentyn/ person ifanc yn y dyfodol, gall ei dealltwriaeth glir o'r addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar y plentyn, cysondeb y pasbortau iechyd a hefyd ei rôl gydgysylltu o fewn y tîm ehangach oll gael eu defnyddio i gefnogi unrhyw gyfnod pontio.

Rôl y nyrs ym maes nyrsio mewn ysgolion arbennig – cwestiynau ac atebion:

C – Pwy yw nyrsys mewn ysgolion arbennig, a beth maent yn ei wneud?

A – Caiff nyrsys mewn ysgolion arbennig eu cyflogi gan y bwrdd iechyd lleol fel arfer. Maent yn gweithio fel rhan o dîm ehangach yr ysgol, ond mae ganddynt rôl hanfodol hefyd yn y gwaith o gydgysylltu a chydweithredu â'r tîm amlddisgyblaethol sy'n darparu tîm o gwmpas y plentyn a'i deulu. Gallant ddod o unrhyw faes nyrsio, a gallant fod yn nyrsys oedolion sydd wedi cael hyfforddiant ychwanegol; nyrsys plant cofrestredig; nyrsys anabledd dysgu cofrestredig, a gall rhai fod yn nyrsys iechyd meddwl cofrestredig. Mae gan nyrsys ym mhob un o'r meysydd nyrsio set graidd o sgiliau ac mae disgwyl iddynt gyrraedd y safonau a nodir yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, mae rhai nyrsys wedi cael hyfforddiant mewn meysydd penodol a gall fod angen iddynt ddefnyddio arbenigedd, er enghraifft Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, neu geisio cymorth ymddygiadol gan nyrsys sy'n gweithio yn y timau iechyd cymuned ehangach.

C – Sut mae nyrsys mewn ysgolion arbennig yn cael eu cynorthwyo a'u goruchwyllo?

A – Mae hwn yn faes i'w atgyfnerthu wrth i'r fframwaith gael ei gyflwyno. Mae'n bwysig bod pob nyrs yn cael ei goruchwyllo'n broffesiynol mewn rhyw ffordd, a chyfrifoldeb y bwrdd iechyd, rheolwyr nyrsys a'r ymarferydd unigol fel ei gilydd yw sicrhau bod hyn yn digwydd. Yn unol â'r Cynnig Cyffredinol, ac o ystyried natur rôl nyrs mewn ysgolion arbennig, gall nyrsys mewn ysgolion arbennig eu cael eu hunain mewn rhai sefyllfaoedd anodd a sensitif, er enghraifft sefyllfaoedd sy'n ymwneud â diogelu. Mae'n hanfodol ffurfioli'r broses oruchwyllo a sicrhau bod cymorth gan reolwyr ar gael yn ôl yr angen ac yn hygyrch.

C – Pa gyfleoedd sydd ar gael iddynt o ran datblygiad proffesiynol parhaus ac ailddilysu?

A – Cyfrifoldeb y nyrs a'i chyflogwr yw sicrhau ei bod yn ymgyfarwyddo â'r datblygiadau diweddaraf o ran ymarfer, a dylai byrddau iechyd ystyried y cwestiwn hwn wrth ddatblygu'r gwasanaeth. Fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r broses ailddilysu, dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i'r trefniadau ar gyfer nyrsys ysgol.

C – Sut y gellir helpu nyrsys mewn ysgolion i ddefnyddio systemau TG a gwneud defnydd gwell o dechnoleg?

A – Dylid ystyried hyn wrth gyflwyno systemau TG newydd yn genedlaethol, yn benodol y ffordd y mae'r systemau hyn yn gweithio i nyrsys mewn ysgolion arbennig. Mae cyngor a gafwyd gan y fforwm cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion yn un ffordd o nodi eu hanghenion.

C – Pa fathau o ymyriadau a ddisgwylir gan nyrsys mewn ysgolion arbennig?

A – Mae disgwyl i nyrsys mewn ysgolion arbennig edrych ar y plentyn, ei deulu a'r rhai sy'n gofalu amdano ac yn ei gefnogi mewn ffordd gyfannol. Byddant yn defnyddio ymyriadau ychwanegol ac arbenigol i gefnogi'r plentyn. Cytunir ar rai o'r ymyriadau hyn drwy broses gynllunio sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill megis therapyddion lleferydd ac iaith neu seicolegwyr. Gall y nyrsys eu hunain gychwyn ymyriadau eraill os bydd y tîm amlddisgyblaethol yn cytuno i hynny. Dylai pob ymyriad fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dilyn canllawiau cydnabyddedig. Mae Atodiad 2 yn cynnwys adnoddau, a'r nod yw ychwanegu at y rhain fel dogfen fyw, er enghraifft, y safonau newydd ar gyfer plant ac oedolion ag anableddau dysgu dwys a lluosog.

C- Beth yw rôl nyrsys mewn ysgolion arbennig o ran rheoli a storio meddyginiaeth?

Mae nyrsys mewn ysgolion arbennig yn dilyn y canllawiau ar gyfer "cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd" sy'n disgrifio'r disgwyliad ar gyfer storio a gweinyddu meddyginiaethau. Mae gan nyrsys mewn ysgolion arbennig hefyd rôl gyffredinol yn monitro ac yn rheoli meddyginiaethau mewn partneriaeth â'r sawl sy'n rhagnodi a fferyllwyr

Rhwydweithiau a strwythurau

Mae Rhan A yn disgrifio'r berthynas rhwng nyrs yr ysgol a Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru. Y bwriad yw cynnwys nyrsys mewn ysgolion arbennig yn y broses honno.

Roedd bwrdd gweithredu cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion a ddisgrifir yn Rhan A. Bydd y broses o weithredu'r fframwaith ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig yn ffurfio rhan o waith y bwrdd hwn. Is-grŵp o'r prif fwrdd fydd hyn i ddechrau gyda digwyddiadau ar y cyd a chyfarfodydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen.

Mae fforwm a chymuned ymarfer yn bodoli ar gyfer y maes nyrsio mewn ysgolion. Yn yr un modd, byddant ar gael i nyrsys sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig.

Mae Grŵp Nyrsio Anableddau Dysgu Cymru Gyfan ar gael. Bydd gofyn i gynrychiolwyr o'r maes nyrsio mewn ysgolion arbennig ymuno â'r grŵp newydd yn y dyfodol.

Mae dwy gymuned o grwpiau ymarfer yn bodoli, sy'n cael eu cefnogi gan 1000 o Fywydau: un ar gyfer pobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog ac un ar gyfer ymddygiad heriol. Gall fod o fudd i nyrsys mewn ysgolion arbennig gymryd rhan yn y ffora hyn.

Gweithlu

Dylai o leiaf un nyrs ddynodedig, sydd wedi'i chyflogi gan fwrdd iechyd ac sy'n nyrs gofrestredig, fod ar gael i bob ysgol arbennig. Gall nyrsys ddod o gefndiroedd gwahanol, ond dylent allu dangos cymwyseddau sy'n golygu y gellir cyrraedd y safonau. Gall nyrsys mewn ysgolion arbennig ddod o un o'r cefndiroedd canlynol: nyrsio anableddau dysgu, nyrsio plant neu, o bryd i'w gilydd, nyrsio iechyd meddwl fel rhan o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed; gall fod gan rai ohonynt gymhwyster Nyrsys Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol.

Disgwylir i'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith hwn gymryd tua 2 flynedd o adeg ei lansio. Mae asesiad o'r effaith ar y gweithlu wedi cael ei gynnal o ran nifer y nyrsys mewn ysgolion arbennig a'r tîm o amgylch y plentyn, ac er ei fod yn gadarnhaol ar y cyfan, ceir rhai bylchau yn y ddarpariaeth.

Mae Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau yn cynnwys argymhellion penodol, blaenoriaethau gweinidogol bellach, ar ddatblygiad gwasanaethau GIG o ran anableddau dysgu yn y dyfodol a gwella gallu mewn gofal cymunedol, mewn partneriaeth â gwasanaethau cymdeithasol. Yn yr adrannau iechyd a blyneddodd cynnar, nodir rhai argymhellion allweddol lle mae angen atgyfnerthu'r gallu cymunedol i ddiwallu angen arbenigol. Mae gweithredu'r rhain yn cynnwys datblygu llwybrau ar gyfer ymyrryd yn gynnar a chefnogi plant a theuluoedd.

Mae datblygu'r "tîm o amgylch y plentyn" yn rhan o'r datblygiadau hyn ac mae'r broses o gyflwyno'r fframwaith hwn yn cefnogi Gwella Bywydau yn sylweddol yn yr uchelgeisiau hyn.

Mae datblygu llwybrau gyrfa ar gyfer nyrsys mewn ysgolion arbennig yn rhan bwysig o roi'r fframwaith ar waith. Mae creu rhwydweithiau a meithrin gallu er mwyn rhoi cymorth fel yr amlinellir uchod yn rhan o hyn. Fodd bynnag, cynhaliwyd trafodaeth gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar yrfaeodd ym maes anableddau dysgu ac mae datblygu cyfleoedd hyfforddi ac addysgiadol pellach ar gyfer nyrsys mewn ysgolion arbennig yn rhan hanfodol o'r trafodaethau hyn.

Un agwedd allweddol arall a ddaeth i'r golwg yn ystod y broses ymgynghori oedd yr angen i ddatblygu cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus pwrpasol ar gyfer nyrsys mewn ysgolion arbennig. Y prif bynciau a ddaeth i'r golwg oedd diwallu anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gweithio gyda chyfnodau pontio a gweithio gydag ymddygiad heriol.

Fel rhan o'r broses weithredu, bydd cyfres o gyfleoedd datblygu yn y meysydd hyn, a thrwy is-grŵp y bwrdd trosolwg caiff cynllun ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ei ddatblygu.

Argymhellir bod y cymhwyster, y profiad a'r cymwyseddau yn cyd-fynd ag anghenion yr ysgol. Er enghraifft, efallai y bydd angen nyrs plant ar ysgol â phlant sydd â lefel uchel o anghenion gofal iechyd corfforol ac sy'n cael eu cefnogi gan dechnoleg, tra bod angen nyrs anabledau dysgu ar ysgol â nifer fawr o blant sy'n ymddwyn mewn ffordd heriol. Argymhellir bod y byrddau iechyd yn ystyried sgiliau'r nyrsys sy'n cefnogi'r ysgolion arbennig fel rhan o'u gwaith.

Crynodeb

O safbwynt y gweithlu, dyma'r prif flaenoriaethau:

- Sicrhau bod gan bob ysgol arbennig nyrs ddynodedig â'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion yr ysgol a chyrraedd y safonau hyn
- Sicrhau bod disgrifyddion y rôl a disgrifiadau'r swydd yn adlewyrchu'r safonau yn y fframwaith hwn yn gyson
- Sicrhau bod nyrsys mewn ysgolion arbennig yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol yn barhaus i'w galluogi i gyrraedd y safonau
- Sicrhau bod cymuned ymarfer ar gyfer nyrsys mewn ysgolion arbennig yn cael ei sefydlu fel rhan o'r rhwydwaith nyrsio mewn ysgolion ehangach
- Sicrhau bod nyrsys mewn ysgolion arbennig yn cael eu goruchwyllo gan gymheiriaid
- Sicrhau bod arweinyddiaeth a'r gwaith cydgysylltu/y pwynt mynediad unigol yn cael sylw penodol a'u bod yn cael eu cefnogi drwy addysg a hyfforddiant a thrwy greu strwythurau i'w gwneud yn bosibl i gyflawni'r rhan hon o'r rôl.
- Ymgymherir â'r gwaith o ddatblygu'r "tîm o amgylch y plentyn" yn y cyfnod cyflwyno o ddwy flynedd
- Dylai o leiaf ymarferydd ar lefel meddyg ymgynghorol (a all fod yn ymgynghorydd anfeddygol, gan ddibynnu ar anghenion), therapyddion, a thîm nyrsio cymuned a gwasanaethau gofal sylfaenol fod ar gael i bob plentyn mewn ysgol arbennig.
- Dylai'r gydberthynas rhwng nyrs yr ysgol arbennig fel cydgysylltydd a phwynt mynediad unigol i'r tîm ehangach gael ei hatgyfnerthu. Gallai hyn olygu datblygu ffyrdd newydd o weithio a seilweithiau i gefnogi hyn.
- Mae rheoli ac adolygu meddyginiaethau yn elfen hanfodol, a dylid rhoi pwyslais arbennig ar hyn yn y tîm ehangach.

Atodiad 1

Gweithio gyda thimau cymuned

Yn unol â Rhaglen Plant Iach Cymru (2016) yn sail i'r fframwaith hwn mae cysyniad cyffredinolïaeth gynyddol gyda'r elfennau craidd yn cael eu cynnig drwy ddull 'tîm o amgylch y plentyn' ar dair lefel:

- **Cyffredinol – yr isafswm ymyriad craidd a gynigir i bob plentyn oedran ysgol mewn lleoliadau ysgol gynradd ac uwchradd, waeth beth fo'u hangen.**

Mae Nyrs Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol a nodwyd ar gael i bob plentyn oedran ysgol, person ifanc a'i deulu ac yn yr ysgol y maent yn ei mynychu, er mwyn rhoi cymorth i fynd i'r afael â'r elfennau o'r cwricwlwm cenedlaethol sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Caiff y gwasanaeth ei gyflwyno'n seiliedig ar egwyddor nodi ac asesu angen yn gynnar, gan gynnwys cyflwyno rhaglenni sgrinio, gwyliadwriaeth ac imiwneiddio cenedlaethol yn yr ysgol.

- **Ychwanegol – ymyriadau ychwanegol sy'n seiliedig ar asesu parhaus a dadansoddi cydnherthedd a nodi anghenion ychwanegol.**

Pan nodir bod gan blentyn neu berson ifanc anghenion ychwanegol gellir cynnig asesiad ychwanegol mewn lleoliad priodol. Gellir cynnig rhagor o gymorth a/neu gyfeiriadau at wasanaethau lleol neu arbenigol. Pan gaiff anghenion iechyd y cyhoedd lleol penodol ar lefel poblogaeth yr ysgol eu nodi bydd y nyrs ysgol yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn diwallu'r anghenion a hybu iechyd plant a phobl ifanc.

- **Dwys – ymyriadau eraill, ar sail asesu parhaus a dadansoddi anghenion mwy.**

Bydd y nyrs ysgol, wrth ymwneud ag anghenion iechyd plentyn neu berson ifanc, yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill ac yn cyfrannu'n briodol i gyflwyno'r cynllun y cytunwyd arno.

Atodiad 2

Safonau gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion arbennig i Gymru gyfan

Safon	Camau gweithredu
Sicrhau y cyrhaeddir safonau'r cynnig cyffredinol yn Rhan A	<u>Cyfeiriwch at Atodiad 1 yn Rhan A o'r fframwaith</u> DS - i ailadrodd - ni ddisgwylir i nyrs mewn ysgol arbennig gyflawni'r safonau hyn ond gall wneud hynny lle y bo'n briodol; rôl nyrs mewn ysgol arbennig yw cydgysylltu mynediad i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ac i sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith
Sicrhau bod gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cael eu bodloni	• Yn deall y trefniadau ar gyfer rhoi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ar waith yn ei hysgol ei hun, yn unol â gofynion y bwrdd iechyd • Yn deall y rôl y mae disgwyl iddi ymgymryd â hi • Yn gwerthuso ac yn adolygu effeithiolrwydd ei rôl yn rheolaidd • Yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gael ei goruchwyllo, gweithio fel tîm ac adolygu er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plentyn unigol, a hynny drwy'r trefniadau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol • Yn ymarfer o fewn fframwaith y canllawiau statudol ar gyfer "cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd"
Cydgysylltu gofal	• Yn gyfrifol am y cynllun gofal tra bod y plentyn yn yr ysgol • Yn gwybod pa aelodau o'r tîm ehangach sy'n gysylltiedig â gofal y plentyn • Yn cydgysylltu cyfarfodydd adolygu gofal • Yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer aelodau o'r tîm o ran gofal y plentyn • Yn gallu trefnu clinigau perthnasol ar gyfer aelodau ehangach o'r tîm • Yn sicrhau bod y plentyn a'r teulu yn ganolog i'r broses gofal • Yn gweithredu fel y cydgysylltydd gofal enwebedig lle y bo'n briodol • Yn gweithio'n unol â chod(au) ymarfer proffesiynol
Canolbwyntio'n fwy ar iechyd meddwl a llesiant	• Yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu perthnasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth • Yn defnyddio deddfwriaeth a chanllawiau ar iechyd meddwl yn effeithiol • Yn sensitif i effaith profiadau niweidiol yn ystod plentynod ac yn defnyddio strategaethau i helpu i leihau eu heffaith

	• Yn defnyddio asesiadau ac adnoddau rheoli risg sy'n seiliedig ar dystiolaeth • Yn defnyddio gwybodaeth weithredol am ddulliau gweithredu/modelau megis: Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol, Dadansoddi Ymddygiad Cymhwysol, Model Gwella wedi Trawma • Yn defnyddio gwybodaeth fanwl am ymyriadau fferyllol a ddefnyddir i reoli symptomau cyflyrau iechyd meddwl. Yn deall y rhesymeg dros ddefnyddio, monitro ac adolygu effeithiolrwydd, sgil effeithiau ac ati • Yn arfer barn broffesiynol er mwyn gweithio'n briodol â'r teulu, gofalmwr a'r person ifanc i sicrhau dull cyd-gynhyrchiol o asesu, llunio a datblygu cynlluniau gofal • Yn gymwys wrth werthuso a defnyddio'r tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod y gwaith hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn broses barhaus • Yn deall pa mor bwysig yw ffiniau proffesiynol fel rhan o gydberthnasau therapiwtig, gan ddangos ymwybyddiaeth o fregusrwydd unigolion • Yn gymwys i ddefnyddio therapïau priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn unol â'r cynllun gofal, ei chymhwysedd proffesiynol a'i hyfforddiant ei hun
Gweithio gyda dulliau therapiwtig	YMYRRAETH GYNNAR • Yn deall pwysigrwydd a nodau gwasanaeth ymyrraeth gynnar • Yn gallu cydnabod argyfyngau sy'n codi • Yn arfer barn broffesiynol wrth uwchgyfeirio • Yn gallu defnyddio ymyriadau byr pan fo'n angenrheidiol • Yn defnyddio ymyriadau therapiwtig effeithiol y gwyddys eu bod yn gweithio ym maes ymyrraeth gynnar • Yn rhoi strategaethau lleihau risg ar waith sy'n seiliedig ar deuluoedd • Yn defnyddio'r cymwyseddau priodol o'r fframwaith niwroddatblygiadol a'r 'fframwaith medrus' ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ANABLEDDAU NIWRODDATBLYGIADOL AC ANABLEDDAU DYSGU Yn deall ac yn gwybod am gyflyrau niwroddatblygiadol, gan gynnwys yr anableddau dysgu sydd gan blant a phobl ifanc • Yn ymwybodol o'r cyfraddau cyffredinrwydd • Yn gwybod ym mha ffyrdd gwahanol y gall cyflyrau niwroddatblygiadol gyflwyno eu hunain yn y boblogaeth anableddau dysgu

	• Yn defnyddio dulliau cadarnhaol ac effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ymdrin ag unigolion â chyflyrau niwroddatblygiadol a/neu sy'n ymddwyn mewn ffordd heriol • Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys dulliau di-eiriau ac ategol, i ddiwallu anghenion cyfathrebu unigol • Yn hyrwyddo pwysigrwydd defnyddio'r opsiynau lleiaf cyfyngol i hwyluso cynhwysiant a gwella ansawdd bywyd • GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL PLANT A'R GLASOED Yn gwybod llawer am y cyflyrau iechyd meddwl a all effeithio ar blant a phobl ifanc, ac yn defnyddio ymchwil i ymgyswngtu â'r datblygiadau diweddaraf • Yn gallu defnyddio technegau ymddygiadol priodol ac yn sicrhau y caiff unrhyw arferion cyfyngol eu rhoi ar waith o fewn protocol caeth, gan ystyried cod ymarfer Deddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2016 a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, yn ogystal â pholisïau lleol • Yn gallu rheoli meddyginiaethau, yn gwybod am y meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio ac yn ymwybodol o unrhyw faterion, problemau posibl a sgil effeithiau; yn arsylwi'n briodol i gefnogi'r defnydd therapiwtig o feddyginiaethau ac osgoi gordriniaeth •
Diwallu anghenion gofal iechyd corfforol	• Yn deall rôl hybu iechyd, atal a diogelu'r nyrs yn yr ysgol arbennig a'r ffordd y mae cefnogi gofal iechyd corfforol yn rhan ohoni • Yn gwybod llawer am y problemau gofal iechyd corfforol cyffredin sy'n gysylltiedig ag anghenion addysgol arbennig ac yn gallu ymateb i'r rhain, gan gynnwys: epilepsi ac ymateb i statws; problemau gastroenteroleg gan gynnwys rhwymedd; problemau anadlol; problemau cyhyrsgerbydol; problemau ymataliaeth a hyfywedd meinwe • Yn deall pwysigrwydd maeth, deiet, bwydo a hydradiad; yn gallu helpu i fwydo gyda thiwb pan fo angen • Yn deall pwysigrwydd rheoli osgo yn dda a hyfywedd meinwe • Yn gallu rheoli meddyginiaethau, yn gwybod am y meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio ac yn ymwybodol o unrhyw faterion, problemau posibl a sgil effeithiau; yn arsylwi'n briodol i gefnogi'r defnydd therapiwtig o feddyginiaethau ac osgoi gordriniaeth • Yn gallu defnyddio unrhyw dechnoleg gynorthwyol

	ac unrhyw gymhorthion ac offer Yn cefnogi unrhyw ofal sy'n ymwneud â diwedd bywyd a gofal lliniarol mewn modd sensitif
Cefnogi rhieni a gofalwyr	- Yn deall sut mae rôl y nyrs yn yr ysgol arbennig yn cefnogi rhieni fel rhan o dîm ehangach yr ysgol a thrwy'r tîm o gwmpas y plentyn sydd ar gael yn y gymuned - Yn arfer barn broffesiynol wrth asesu'r dull priodol a mwyaf sensitif o gefnogi pob teulu unigol - Yn cynnal ffiniau proffesiynol wrth gefnogi teuluoedd a gofalwyr - Yn parchu cyfrinachedd - Yn defnyddio dulliau cyfathrebu therapiwtig yn effeithiol - Yn darparu addysg, gwybodaeth a chynghor ac yn cydnabod terfynau ei rôl a'i gallu proffesiynol ei hun - Yn deall pryd a ble i gyfeirio unigolion i gael rhagor o gymorth - Yn ymyrryd yn uniongyrchol er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r teulu/gofalwyr ddysgu o brofiad - Yn gwybod pryd a sut i dynnu cymorth yn ôl mewn ffordd garedig a sensitif pan fydd yn briodol - Yn deall pwysigrwydd cadw cofnodion proffesiynol
Cyfnodau pontio	Yn cefnogi cyfnodau pontio yn briodol yn dibynnu ar anghenion y plentyn/person ifanc unigol

Atodiad 2

Adnoddau a chysylltiadau

Maes	Adnodd
Addasiadau rhesymol	https://www.cnwl.nhs.uk/wp-content/uploads/2012/04/Reasonable-adjustments.pdf
Addasiadau rhesymol	https://www.gov.uk/government/publications/reasonable-adjustments-for-people-with-learning-disabilities
Diwallu anghenion gofal iechyd corfforol	https://www.learningdisabilitytoday.co.uk/looking-for-an-ordinary-life
Gofal osgo	https://www.youtube.com/watch?v=BO_DwjgrEVI Safonau ar gyfer anabledau dysgu dwys a lluosog

Hefyd:

Canllawiau ar gyfer Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?lang=cy>

Cod Ymarfer AAA ar gyfer Cymru:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/special-education-needs-code-of-practice/?skip=1&lang=cy>